

EISTEDDFOD

Gwaith Pwyllgor #MasAryMaes – i gyfarfod am y tro cyntaf nes mlaen yn y flwyddyn newydd yn 2020.

1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn aelodau o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a gofynnir i'r Ysgrifennydd fynychu yn ei h/absenoldeb.

2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

3. Pwyllgor #MasAryMaes

Mae hwn yn bwyllgor newydd yn dilyn llwyddiant prosiect #MasAryMaes 2018 yng Nghaerdydd. Partneriaeth yw hon rhwng yr Eisteddfod, Stonewall Cymru a'r gymuned LHDT. Mae creu, cytuno a datblygu dyletswyddau'r pwyllgor hwn dros y flwyddyn/ddwy nesaf yn un hynod o bwysig er mwyn sicrhau bod yr adran hon nid yn unig yn dod yn rhan annatod o weithgareddau'r Eisteddfod, ond hefyd yn ffynnu o flwyddyn i flwyddyn. Bydd angen codi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y ffaith fod yr Eisteddfod yn dod i Sir Gwynedd yn Awst 2021.

Bydd gan y pwyllgor rôl bendant i adnabod beth yw'r anghenion yn lleol a beth fydd pobl yn dymuno ei weld yn digwydd yn yr ardal trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gan drafod syniadau a chyfleoedd ar sut i wireddu'r anghenion hyn trwy fanteisio ar ddyfodiad yr Eisteddfod.

4. Prif waith Pwyllgor #MasAryMaes

Rhennir y dyletswyddau fel a ganlyn:

- Gosod targed ariannol i'r pwyllgor, a chynnal digwyddiadau a/neu weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o ddyfodiad yr Eisteddfod a phrosiect #MasAryMaes yn benodol.
- Annog a chydweithio gyda sefydliadau LHDT+ eraill yn lleol, yn enwedig y prifysgolion ac ysgolion o fewn y dalgylch mewn partneriaeth efo Stonewall Cymru.
- Awgrymu a chynnig syniadau i'r Eisteddfod ac enwau artistiaid posib ar gyfer rhaglen #MasAryMaes a fydd ar lwyfannau'r Eisteddfod, gan gadw llygaid ar ddatblygu elfennau llwyddiannus o 2018-20.
- Cynorthwyo i hyrwyddo a marchnata digwyddiadau #MasAryMaes.
- Cynghori'r Pwyllgor Gwaith/Gweithredol ar faterion cyfredol LHDT+ yn ôl y galw.

Elen Elis - Trefnydd a Phennaeth Artistig: elen@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15, Parc Busnes yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP / 0845 409 0400

Sioned Edwards - Dirprwy Bennaeth Artistig: sioned@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU / 0845 409 0300

Iestyn Wyn – Rheolwr Ymgyrchoedd, Polisi ac Ymchwil, Stonewall Cymru: iestyn.wyn@stonewall.cymru

Stonewall Cymru, Transport House, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9SB / 02920 347 002